
# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 10 CHWEFROR 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Seindorf y Cymru Brenhinol yn ymweld a Dinbych



Seindorf y Cymru Brenhinol



Llun Rebecca Badeeb




Map Cymru Humphrey Llwyd

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Chwefror 16- Ar Werth Mawrth 3, 2019**

## RHESTR Y SWYDDOGION

CADEIRYDD
- Stan Lyall 813659

SWYDDOG HYSBYSEBION
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

GOLYGYDDION:
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

YSGRIFENNYDD
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

TRYSORYDD
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

CARTWNYDD
Huw Vaughan Jones

DOSBARTHWYR
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

TEIPYDDION:
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd




Wrth fyw yn weddol agos at ganol y dref, daethom i arfer a gorfod gadael y car weithiau gryn bellter o'r tŷ gan nad oes le iddo yn ymyl y drws. “Dim problem,” ar y cyfan medde fi, er nad yw'r arfer yn boblogaidd iawn gan bawb – a hynny yn dod i'r golwg unwaith neu ddwy pan oeddem yn bwriadu symud oddiyma.

Sut bynnag, ychydig yn ôl, wrth gerdded ar hyd Lon Copner i gyrraedd y car, digwyddais sylwi ar yr hysbysfwrdd am y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hen safle'r Ysgol Uwchradd yn y Lon Ganol, a gwelais mai eu henw bellach fydd Awel Y Dyffryn. Y tro diwethaf i mi sylwi ar y bwrdd manylion hwn, Pentre Canol oedd ei enw – enw teilwng iawn, enw ag ystyr iddo. Mi fydd yma gasgliad o gartrefi a ddaw yn BENTREF amlwg a fe fydd, gobeithio, olwg daclus arno a hynny mewn darn o'r dref sydd a gwedd wasgaredig a braidd yn gymysglyd arni ar hyn o bryd.

Mae'r gair CANOL hefyd yn addas iawn gan mai safle oddiar y Lon Ganol sydd yma, - lon a gafodd ei henw amser maith yn ol, debyg. Pam y newid enw felly – o Pentre Canol, enw pwrpasol cryf i Awel Y Dyffryn, enw gwan, llawn sentiment.

Mae hyn yn gwneud i rywun feddwl am yr engreifftiau lawer o enwau tai, strydoedd a weithiau busnesau bychan bellach, - sydd yn cario enwau Cymraeg gwan, di-liw a di-ystyr yn aml iawn yn unig er mwyn lleddfu cydwybod y perchennog gan eu gadael yn teimlo iddynt wneud tro da â'r iaith Gymraeg. Oesau yn ol pan yr oedd gafael y Gymraeg dipyn mwy tyn ar feddyliau pawb, ceid enwau pwrpasol ar dai a strydoedd, yn aml yn disgrifio maint, lliw, perchnogaeth, ansawdd safle – unrhyw ddisgrifiad ymarferol ag yn aml, po fwyaf pwrpasol yr enw y mwyaf cofiadwy yr oedd. O na fyddid wedi cadw at y syniad a'r cynnig cyntaf yn y Lon Ganol, Dinbych.

*Ceredig Gwynn*

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

**BAG Y BIGWN**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

Gwenan Ellis £ 10.00
Cymdeithas Gymraeg Dinbych £100.00

## Dyddiadur

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a’r Brwcws.
Nos Lun, Chwefror 11eg.
Sgwrs a sleidiau gan Berwyn Evans, Llansannan: ‘Dyffryn Aled fel carchar i Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.’

Cor Meibion Goronwy (cor newydd o sir fon)
Cyflwynydd Gareth Oliver
Yn canu yng nghanolfan cymdeithasol Pentrefoelas
Nos Sadwrn Chwefror 16eg am 7.00yh
Tal mynediad £10 (plant am ddim)
Yr elw at hosbis Dewi Sant Llandudno a Sant Cyndeyrn Llanelwy



Edrych ar ôl tocynnau a'r raffl oedd Brenda Wynne, Shirley Harrison, Cherry Faulkner ac Eniys Davies




Paul Harrison Côr Meibion Dinbych yn cyflwyno tysysgrif i Uwchgapten Denis Burton MBE, Arweinydd Seindorf y Cymru



Tri arweinydd sef Clwyd Wynne ,arweinydd y cyngerd, Uwchgapten Denis Burton,arweinydd Seindorf y Cymry Brenhinol ac Arweyn Roberts, arweinydd Côr Meibion Dinbych




Shenkin IV gyda Uwchgapten Rhingyll Mark Jackson a Mia Celyn Jones



Maldwyn a Breda Roberts a Janet yn mwynhau y cyngerdd

# Shenkin IV

Cafodd Shenkin ei ddewis oddi ar y creigiau ar y Gogarth, Llandudno a'i ddal gyda help milfeddyg yr RSPCA .

Mae Shenkin yn fwy amlwg yn Stadiwm y Principality yn arwain tïm Rygbi Cymry dan alaw Rhyfelgyrch Gwþr Harlech yn cael ei chwarau gan Seindorf y Cymry Brenhinol




Suzanne Evanson BA, Cynorthwyr Cyllid Rhanbarth i Milwyr Dall lle roedd elw y noson yn mynd



Côr Meibion Dinbych gyda Seindorf y Cymry Brenhinol



Ymweliad Sion Corn a Capel Brwcws




Gwasanaeth Nadolig Capel Brwcws



Mwynhau ymweliad Sion Corn yng Nghapel Brwcws

**RHYBUDD GDPR**
Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.
**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.
**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**
Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/ lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.
Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

# Y Capeli

## Capel Brwcws

Y prynhawn Sul cyn y Nadolig, gyda'r capel yn llawn, perfformiwyd 'Stori'r Geni' gan blant yr Ysgol Sul. Bu i rhai o'r mamau hefyd roi darlleniadau o garolau. Braf oedd cael croesawu ffrindiau a theulu atom. Diolch i'r mamau am baratoi y plant ac i Carolyn Thomas am gyfeilio.

Yn dilyn y gwasanaeth cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned. Cafwyd ymweliad gan Sion Corn gyda anrheg i'r plant i gyd.

Noswyl Nadolig cafwyd 'Gwasanaeth Carolau' wedi ei drefnu a'i arwain gan ein gweinidog y Parch. Andras Iago. Cafwyd unawdau gan Steffan Rhys Hughes a Gwenan Mars-Lloyd a darlleniadau gan rhai o aelodau eglwysi'r fro. Carolyn Thomas oedd yr organyddes gyda Leah Owen yn cyfeilio i'r unawdwyr.

Cafwyd gwasanaeth Dathlu'r Wyl gyda chymun yn y Capel Mawr fore Nadolig.

Bore Sul, Rhagfyr 30ain cynhaliwyd Ysgol Sul i'r oedolion.

Y Parch. Andras Iago oedd yn gwasanaethu yn y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth a chyfraniad ymhob ffordd drwy'r flwyddyn. Anfonwyd ein cofion at Eddie Hughes a'n dymuniadau gorau i Bleddyn Williams yn ei gartref newydd.

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau' flwyddyn Nos Iau, Ionawr 3ydd. Cymerwyd rhan gan Lis Edwards, Gwilym Williams a Rhianwen Williams. Eleanor Roberts oedd wrth yr offeryn.

Oedfa'r Fro, yng Nghapel y Dyffryn, dan ofal y Parch. Andras Iago a gafwyd ar y Sul cyntaf o 2019.

Dydd Sul, Ionawr 13eg agorwyd yr Ysgol Sul gan Catrin Jones.

Dilwyn Jones oedd yn pregethu yn oedfa'r prynhawn. Yr organyddes oedd Eleanor Roberts. Dymunwyd yn dda i Lis Edwards cyn ei thriniaeth.

Nos Fercher, Ionawr 16eg yng Nghymdeithas Chwiorydd a'r Gymdeithas Ddiwylliadol Jean Gwynn oedd ein gwraig wadd.



## Capel Y Fron

Nos Sul Rhagfyr 16eg yr oedd yr oedfa dan ofal Mr Peter Smith Henllan. Fe gawsom wasanaeth Nadoligaidd bore Sul Rhagfyr 23ain wedi ei drefnu gan Richard Snelson, llywydd y mis, gyda Erfyl a Carys Williams, Wendy Lloyd Jones, Richard a Jois Snelson yn cyfranu darlleniadau, gweddiau, carolau ac hefyd fe wnaeth Ednyfed Williams ganu Carol Plygain. Wedi'r gwasanaeth bendithiol yma oedd yn arwain ein myddyliau at wir ystyr y Nadolig yr oedd y chwiorydd wedi paratoi paned a mins pei. Yn y gwasanaeth Golau Canwyll oedd yn cael ei gynnal yn Capel Brwcws noswyl Nadolig fe wnaeth Richard Snelson ddarllen adnodau o Efengyl Luc. Bore dydd Nadolig yr oedd Oedfa Gymun yn y Capel Mawr i aelodau'r Fro dan ofal ein Gweinidog ac mi fu y Parch Andras Iago yn ein gwasanaethu ar y Sul olaf o'r flwyddyn. Yr organyddion yn ystod y mis oedd Iona Edwards ac Eiri Jones. Yr oedd cyfle i aelodau'r Fro ymuno mewn gwasanaeth yn Capel y Dyffryn ar y Sul cyntaf o 2019 ac yna fe gawsom Gyfarfod Gweddi oedd wedi ei drefnu gan Gaynor Prew nos Lun Ionawr 7fed. Y rhai oedd yn cymeryd rhan oedd Mrs Pamela Lloyd, Mr Gwyrfai Jones a Gaynor ac fe wnaeth y Parch Nesta Davies offrymu gweddi i gloi a Eiri Jones oedd yr organyddes.

## Cymdeithas Chwiorydd Y Fron a'r Brwcws

Yr oedd ein cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn Nos Fercher Ionawr 16eg. Ein gwraig wadd oedd Mrs Jean



Mrs Jean Gwynn

Gwynn. Dechreuwyd y Cyfarfod gan Pamela Lloyd. Cafwyd orig ddifyr iawn gyda Jean yn rhoi hanes ei magwraeth yn Sir Fflint. Yr oedd ei thad yn wreiddiol o Borth Amlwch a'i Mam o Benbre, Sir Gaerfyrddin. Morwr oedd ei thad ac fe fu yn gweithio ar y llong “Point of Ayr” oedd yn cario glo o Bwll y Parlwr Du. Cawsom hanes y pwll oedd yn cynhyrchu glo ac hefyd hanes diddorol y ceffylau oedd yn gweithio dan y ddaear. Wedyn fe wnaeth ein tywys a rhoi hanes ardaloedd, Gwespyr Fynnongroew a Thalacre. Diolchwyd i Jean gan Mrs Magi Jones. Yn drist iawn cawsom newyddion am farwolaeth Anwen Williams bore Llun. Yr oedd Anwen yn ffyddlon iawn i'r cyfarfodydd ac wedi bod yn Is-Lywydd am rhai blynyddoedd. Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda Anita ac hefyd y mae Aron a Gethin wedi colli Nain.
Llongyfarchiadau i Gwenda Owens ar ddod yn Nain i Beca Mared. Diolch hefyd i Dafydd Lloyd Jones am ei help gyda'r peiriant technegol ac i Nancy Brierley a Carys Jones am baratoi paned a braf oedd gweld rhai o'r brodyr wedi ymuno gyda ni.

## Lôn Swan

"Y Nadolig - Geni Iesu", oedd thema Oedfa Bore Sul, Rhagfyr 23ain yn Lôn Swan. Cafwyd perfformiad graenus gan y plant a'r ieuenctid. Yn dilyn mwyhawyd paned a mins pei a chyfle i gymdeithasu gan y gynulleidfa, tra bod y cast a ffrindiau yn mwynhau y lluniaeth a baratowyd ar eu cyfer. Diolch i bawb a gymerodd rhan ac i athrawon yr Ysgol Sul am drefnu.
Bore Nadolig, yn ôl yr arfer cynhaliwyd yr Oedfa Weddi Nadoligaidd ac ar y Sul olaf o'r flwyddyn trefnwyd Oedfa Naw Llith a Charol.

*Graham Floyd*



## Y CAPEL MAWR A SEION

Cafwyd cwmni’r Parch. Glyn Thomas, Abergele, ar fore Sul Rhagfyr 16eg. Croesawyd ef gan Mrs Angharad Rhys, llywydd y mis. Mrs Catrin Warren oedd yr organyddes.
Ar brynhawn Sul, Rhagfyr 23ain, cafwyd oedfa o ddarlleniadau a charolau i ddathlu’r Ŵyl. Cynlluniwyd y cyfan gan Mrs Nerys Ann Roberts. Cafwyd te prynhawn i ddilyn, ac yna ymweliad gan Sion Corn. Mrs Catrin Warren oedd y cyfeilydd.
Yn Y Capel Mawr cynhaliwyd oedfa i eglwysi’r Fro ar fore’r Ŵyl dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch. Andras Iago. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.
Roedd hi’n ganol Ionawr pan gynhaliwyd yr oedfa nesaf yn yr eglwys pan gafwyd cwmni Mr Dilwyn Jones yn oedfa’r bore. Croesawyd ef gan Mrs Nerys Ann Roberts, llywydd y mis, a chyfeiliwyd gan Mrs Catrin Warren.




## Aelwyd Capel Mawr

Dechreuwyd Cyfarfod mis Ionawr gan Olwen Roberts. Siaradodd am hen arferion Calan yng Nghymru a darllenodd gerdd Dic Jones i “Calan”. Rhiannon Wynne oedd yn llywyddu a rhoddodd groeso cynnes i bawb ac i wr a gwraig a ddaeth atom sef Gwilym ac Edna Williams. Mae'r ddau yn bobl prysur iawn yn y Capel a gyda gwaith elusenol. Roedd ganddynt gwis amrywiol a diddorol iawn wedi ei baratoi ar ein cyfer, a bu llawer o grafu pen! Y pynciau oedd y Nadolig, cyffredinol a bwyd a diod. Yn sicr fe wnaeth pawb ddysgu llawer. Diolchwyd i bawb gan Lilian Jones. Diolch hefyd i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned ar ein cyfer.
*Mair Jones*



Pendroni dros 'Y Goron'

# Y Cymdeithasau

## Y Gymdeithas Gymraeg

Ar Nos Wener Ionawr 4ydd, cynhaliwyd ein cyfarfod diweddaraf, sef Noson yng Nghwmni Nerys Ann Roberts, ein llywydd. Daeth dwy ddysgwraig ac ambell ffrind hefo hi.
Cawsom noson fywiog ar thema "Y Goron". Cyflwynwyd Nerys Ann a diolchwyd iddi gan Nancy Jones a Richard a Jois Snelson oedd yn gyfrifol am y baned wedyn.

Dilwyn Jones



Coron Gwilym R yn benwisg i'w ferch, Olwen



Coron y noson - Nerys Ann






## Clwb Gosod Blodau Dinbych

Ar ddydd Mawrth, Ionawr 8fed, cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol gyda ond ychydig o'n haelodau yn bresennol pryd y trafodwyd ac y cytunwyd ar y gwahanol weithgareddau. Mrs Felicity Cookson fydd ein cadeirydd nesaf a bydd yn ei swydd am gyfnod o dair blynedd. Hefyd cytunodd gweddill y pwyllgor i barhau â'u swyddi ag eithrio Mair Rowlands a Glenys Jones sydd wedi bod yn aelodau ffyddlon a gweithgar tu hwnt dros y blynyddoedd. Dymunwn y gorau i'r ddwy ohonynt i'r dyfodol.
Bydd ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 5ed pryd y bydd Anita Wright o Stafford yn arddangos ei dawn – bydd croeso cynnes i bawb. Bydd yr un croeso yn eich disgwyl ar Fawrth 5ed pan fydd Sylvia Bower o Stockport yn arddangos ei dawn hithau. Y tâl aelodaeth ydi £20 gyda £2 o dâl bob mis a hynny'n cynnwys lluniaeth.

## Cyflwyniad i Edna Ellis (Cyn – lywydd)



Roedd Edna wedi ymddeol yn ddiweddar o gwmniaeth Cyfeillion yr Inffyrmari ar ol 36 mlynedd ar y pwyllgor. Diolchodd Margaret iddi am ei holl waith ymroddedig i'r gwmniaeth dros y blynyddoedd a chyflwynodd iddi flodau a thaleb yn arwydd o werthfawrogiad oddiwrth y cwmni. Diolchodd Edna i'w cyd ymddiriedolwyr a soniodd ychydig am ei blynyddoedd yn aelod o'r gwmniaeth a'r pryd y cafodd Bathodyn Trugaredd ei gyflwyno iddi a thlws 25 mlynedd gan ATTEND.

## Sgwrs a Sangria – Clwb Darllen Llyfrgell Dinbych


Os ydych yn meddwl am rywbeth i'w wneud ar ddechrau blwyddyn newydd, beth am ymuno â chriw bywiog clwb darllen Sgwrs a Sangria ar gyfer eu cyfarfod nesaf? Mae'r grwp yn cyfarfod yn Llyfrgell Dinbych bob deufis i drafod bob math o lyfrau Cymraeg.

Go brin bod unrhyw nofel Gymraeg ddiweddar wedi cael cymaint o sylw â *Llyfr Glas Nebo* gan Manon Steffan Ros, cyfrol fuddugol Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol 2018. Hon fydd un o'r cyfrolau fydd o dan y chwydd wydr yn y cyfarfod nesaf fydd yn cael ei gynnal *nos Fawrth, Chwefror 19eg am 7.30 o'r gloch*. Nofel arbennig iawn am fam a mab sydd yn goroesi 'Y Terfyn'. Mae pawb yn edrych ymlaen i weld barn y gweddill amdani.

Y llyfr arall fydd yn cael ei drafod fydd *Cerdded mewn Cell*, cyfrol newydd hirddisgwyliedig o straeon byrion gan Robin Llywelyn. Mae sawl blwyddyn ers iddo gyhoeddi cyfrol a disgrifir hon ar *www.gwales.com* fel casgliad o straeon 'chwareus, swreal a ffraeth'.

Mae copiau o'r llyfrau ar gael o'r Llyfrgell felly galwch mewn i'w benthyg.











**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

**Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

# Gwirfoddolwyr yn dod i adnabod y dyn a roddodd Gymru ar y map

Bu 12 o wirfoddolwyr treftadaeth o Ddinbych ar ‘Daith Ddysgu’ i’r Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar i weld arddangosfa oedd yn dathlu 450 mlynedd ers marwolaeth Humphrey Llwyd. Cafwyd yno sgwrs gan E.Gwynn Matthews, a oedd yn rhoi darlun o fywyd Llwyd, a rhoddwyd cyflwyniad i’r grŵp gan Huw Thomas, o adran fapiau’r Llyfrgell.
Ym mis Ionawr bydd arddangosfa newydd yn agor yn y Llyfrgell i ddathlu bywyd a gwaith Humphrey Llwyd (1527-1568). Yn Lluniwr Prydain: Bywyd a Gwaith Humphrey Llwyd (19.01.19 - 29.06.19)bydd gwaith pwysicaf Llwyd yn cael ei arddangos, gan roi sylw i’w gampau niferus ac esbonio eu harwyddocâd heddiw.

Ystyrir Humphrey Llwyd, hynafiaethydd a gwneuthurwr mapiau, a aned yn Ninbych, fel Lluniwr Prydain, gan mai ef sy’n cael y clod am fathu’r term Ymerodraeth Brydeinig, ond hefyd am mai ef oedd y gŵr a roddodd Gymru ar y map trwy gyhoeddi’r map cyntaf yn dangos Cymru fel gwlad.

Fel un o wŷr blaenllaw cyfnod y Dadeni yng Nghymru, cyflawnodd lawer a chwaraeodd ran amlwg yn y broses o greu’r cysyniad o Gymru fel gwlad. Cynhyrchodd nifer o weithiau pwysig gan gynnwys cyfieithiad Saesneg o’r gwaith cynnar, Brut y Tywysogion. Hefyd bu’n allweddol yn yr ymdrech i helpu i lywio’r Mesur ar gyfer cyfieithu’r Beibl i’r Gymraeg drwy’r Senedd a phoblogeiddio hanes Tywysog Madog yn darganfod America.



# Cyfarchion




Penblwydd hapus i Hari Gruffydd Jones yn 5 oed ar 31 Ionawr gan Nain a Taid Dinbych (John Geraint ac Eiri) ac Anti Nia ac Yncl Sam.
Dyma Hari (a Seth) wedi gwisgo ar gyfer diwrnod rhyngwladol yn yr ysgol.


Emyr Evans a’i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333
Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pottinger







Morgeisi CARTREF Mortgages
Cyngor Morgais Di-Ffi
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk



# Ewyllysiau

Mae creu ewyllys yn rywbeth nad yw llawer o bobl yn hoff o'i drafod na meddwl amdano. Fodd bynnag, mae cael ewyllys ddilys yn barod pan fo rhywun yn marw yn ffordd o sicrhau fod eich asedion yn mynd i'r pobl cywir, a bod sicrwydd ynghylch eich dymuniadau.

Wrth ysgrifennu ewyllys, byddwch yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch pwy fydd yn cael eich eiddo, ond gallwch hefyd roi llawer mwy o ganllawiau yn eich ewyllys hefyd. Dyma rhai o'r pethau sydd angen eu ystyried wrth greu ewyllys;

- Apwyntio ysgutorion – Rol ysgutorion yw i ganfod a chasglu eich asedion, talu unrhyw ddyledion ac yna dosbarthu'r ystad i'r buddiolwyr. Dylai ysgutor fod yn yiwun rydych yn ymddiried ynddynt i gyflawni eich dymuniadau wedi i chi farw. Mae'n rhaid i ysgutor fod dros ddeunaw a gall ef neu hi fod yn fuddiolwr yn yr ewyllys yn ogystal.
- Buddiolwyr – Rhain yw'r pobl fyddai'n cael eich asedion. Gallwch roi eich holl asedion i fuddiolwyr mewn canrannau, neu rhannu asedion penodol (er engraifft, swm o arian i un buddiolwr, a darn o emwaith penodol i fuddiolwr arall). Os yw buddiolwr yn blentyn bydd yn rhaid penodi ymddiriedolwr i ddal yr asedion hyd nes bydd y buddiolwr yn cyrraedd deunaw mlwydd oed.
- Dymuniadau gwarchodaeth – os y dymunwch, gallwch roi cyfarwyddiadau mewn ewyllys sydd yn dweud pwy sydd i edrych ar ol eich plant petaech yn marw cyn iddynt gyrraedd deunaw mlwydd oed.
- Dymuniadau claddu – os y dymunwch, gallwch nodi dymuniadau claddu yn eich ewyllys.

Os nad oes ganddoch ewyllys ddilys ar eich marwolaeth, bydd eich ystad yn cael ei rannu yn ol y rheolau diffyg ewyllys. Gall hyn olygu nad yw'r rhai yr ydych yn dymuno i etifeddu yn derbyn eich asedion.

Nid oes yn rhaid i wneud ewyllys fod yn fater cymleth na chostus. Gallwch hefyd newid eich ewyllys ynunol ac unrhyw newid yn eich sefyllfa.

*Gwenllian Fflur Huws LLB*
*Cyfreithwraig*

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP**
**Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**


Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Ers dechrau'r flwyddyn mae Amgueddfa Gwefr heb Wifrau wedi bod yn agor ei drysau i ymwelwyr ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i'r Amatyriaid Radio gysylltu ag Amatyriaid eraill ar draws y byd gan mai dydd Sadwrn yw'r diwrnod gorau i wneud hynny. Mae hefyd yn gyfle i ni gynnal Boreau Crefftau rheolaidd ar gyfer plant ysgol oed 6-12, o 10.30 tan 12.30. Rydym yn cynnig dewis eang o grefftau i fechgyn a merched, gan gynnwys peintio, creu gwrthrychau, origami ac ati, o dan arweiniad Carole ac Ann. Mae nifer y lleoedd ar y Boreau hyn yn gyfyngedig, felly cysylltwch â
info@wirelessinwales.org.uk
os ydych am gadw lle. Dyma lun o Hannah a Katie yn gwneud anifeiliaid bach ym More Crefftau mis Ionawr. Buon nhw hefyd yn creu blodau o wifren a farnais ewinedd, a globau eira.





Mae'r llun arall yn dangos y rhodd ddiweddaraf mae'r Amgueddfa wedi ei derbyn. Anrheg briodas yn 1957 oedd y Cossor Melody Maker model 549 ac mae'r radio a'r llyfryn cyfarwyddiadau yn dal mewn cyflwr ardderchog. Mae ganddo LW, MW A SW ac roedd yn un o'r radios cyntaf i dderbyn VHF/FM. Defnyddiwyd yr enw 'Melody Maker' gan A.C. Cossor Ltd o'r 1920au hwyr am ryw 40 o flynyddoedd; citiau ar gyfer gwneuthurwyr yn y cartref oedd y rhai cyntaf. Roedd A. C. Cossor yn gynhyrchwyr gwydr gwyddonol yn y 19eg ganrif hwyr a dechreuwyd gwithio yn y maes electronig yn ystod y Rhyfel Byd 1af. Yn 1936, cynhyrchwyd nhw eu teledu cyntaf. Yn ystod yr 2il Ryfel Byd cynhyrchwyd nhw offer radar ac yn hwyrach offer ar gyfer tyrau rheoli meysydd awyr. Gwerthwyd y gwaith cynhyrchu Radio a Theledu i Philips yn 1958 a gwerthwyd y cwmni i Raytheon.

Dyma'r darlithiau nesaf yn ein cyfres ar nos Wener yn yr Amguedddfa am 7.00 y.h.:
Chwefror 15fed, Tony Vine yn siarad am 'Daearyddiaeth, Daeareg a Gemfeini'.
Mawrth 15fed, bydd Siaradwyr o StudioMADE, yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes ac yn siarad am 'Celf, Gwyddoniaeth a Thechnoleg'.
Ebrill 5ed, Christopher Lees yn siarad am "Anelu at y Ddinas – yn dilyn hanes Swyddog Radio a Llong Almeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf".

**Guthrie Jones a Jones** Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

CYFREITHWYR
**SwayneJohnson**
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurflant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Ysgol Glan Clwyd

Yn ôl yr arfer bu ein Cyngerdd Nadolig blynyddol ar nos Iau ola'r tymor. Roedd y Gadeirlan yn llawn ar gyfer y noson. Cafwyd eitemau Nadoligaidd gan unigolion, partion a chorau ac roedd hyn yn rhoi naws arbennig ar gyfer y dathliadau. Casglwyd dros £400 ar y noson ac fe gaiff yr arian ei rannu rhwng elusennau lleol.

Yn ystod y tymor diwethaf, bu nifer o weithgareddau codi arian hefyd. Ar ddiwrnod Plant mewn Angen casglwyd dros £1,000. Yna, cafwyd diwrnod gwisgo siwmper nadolig i'r disgyblion a chasglwyd dros £500 i '*Make a Wish Foundation'.* Ar y dydd Gwener olaf o'r tymor cafodd y staff i gyd gyfle i ddod fewn mewn gwisg ffansi ac roedd llawer iawn o '*Minions*' o gwmpas yr adeilad yn addysgu'r disgyblion, ynghŷd a disgyblion hŷn newydd i'r ysgol – aelodau staff wedi eu gwisgo mewn gwisg ysgol. Roedd un aelod o staff yn edrych mor ifanc yn y wisg fel na fu i Mrs Cartwright ei adnabod!

**Llongyfarchiadau** mawr i Elin Evans (bl 13) ar ennill **Efydd I** yn yr arholiad Olympiad Ffiseg Prydain yn ddiweddar. Mae hyn yn gyrhaeddiad hynod o uchel lle cyrhaeddodd y 25% uchaf o'r 1900 o ymgeiswyr ar y lefel uchaf un. Ardderchog wir.

**Llongyfarchiadau** i Elin Evans (bl 13) ar dderbyn cynnig i astudio yng Ngholeg Caergrawnt a Hayley Daffern (bl 13) cynnig i astudio yng Ngholeg Rhydychen. Da iawn chi!

Pleser yw clywed am lwyddiant disgyblion tu allan i'r ysgol hefyd. Mae Charlie Ellen Williams o flwyddyn 7 wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn cystadlaethau 'Pageant' ers rhai blynyddoedd. Enillodd hi gystadleuaeth 'Junior Crown & Glory' Cymru yn 2016 ac ym Mis Mai 2018 eleni enillodd hi'r teitl 'Rhyl May Queen 2018'.

Tystiolaeth gorau i'w llwyddiant yw'r gwaith elusennol sy'n cynnwys codi arian ar gyfer Cancer Plant, Abbie's Army ac Ymchwil Cancer Cymru.

Yn ddiweddar mae Charlie wedi bod yn codi arian ar gyfer Giddo's Gift (Fflint) sy'n cefnogi plant yn eu harddegau a phobl ifanc sy'n dioddef o gancr. Fe wnaeth Charlie gynnal stondin yn Rhyl ar yr 2ail o Ragfyr ac mae hi wrthi yn ddiwyd yn trefnu 'Pageant' ym mis Mawrth 2019 ar gyfer codi arian tuag at yr elusen. Da iawn ti Charlie - dal ati!

**Treialon Pêl-Droed Cymru i Matthew:**

Ar y 1af a'r 2il o Dachwedd, derbyniodd Matthew Senior (Bl.8) fraint fawr gan FAW i gael mynd i wersylloedd pêl-droed ar gyfer ei oedran. Bydd Matthew yn ymuno â'r grwp yn fisol tan y treialon mawr ym mis Mai.

**Llwyddiant Motocross Joel Rizzi:**

Mae Joel Rizzi, 14 mlwydd oed, wedi gadael ei farc yn yr Eidal a derbyn ei le yn yr ail safle ar bodiwm y Gran Prix. Mae Joel wedi cael tymor anhygoel o dda ym mhencampwriaeth ieuenctid Cenedlaethol MX yn Imola ar gyfer y '*YZ125 blu cru super-cup'*, ras gwâdd gyda'r holl yrrwyr yn gwisgo gwisg unfath.



Yn ystod yr wythnos olaf aeth nifer o'r 6ed dosbarth i ganu carolau i'r Uned Cancr yn Ysbyty Glan Clwyd ac i gartrefi'r henoed yn Llanelwy a'r Rhyl. Cawsant groeso arbennig yno. Diolch i Melangell Aled am drefnu.



**Adran Celf:**

Cafodd ambell ddisgybl gyfle i fynychu Gweithdy Celf gyda'r arlunydd enwog Keith Bowen yn ddiweddar. Ganwyd Keith Bowen yn Sir Ddinbych, yn 1950. Astudiodd Ddylunio Graffeg yn y Gyfadran Celf a Dylunio, Polytechnig Manceinion rhwng 1969 a 1972. Arddangoswyd ei waith yn helaeth ac wedi derbyn clod arbennig. Ymhlith ei holl wobrau, mae Keith wedi derbyn y Fedal Aur am Gelf Gain ddwy waith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Yn 1997 dyfarnwyd Cymrodoriaeth Anrhydeddus Prifysgol Cymru iddo. Dyma waith sy'n seiliedig ar gelf Keith Bowen gan Rebecca Badeeb ac Ella Evans o flwyddyn 10.

Am fwy o wybodaeth am Keith Bowen, ewch i [www.artwales.com](www.artwales.com)




**Llun Ella Evans**

# Y Bigwn – 30 mlynedd yn ôl.

Dyma ddetholiad bychan o ddarnau diddorol a ddaeth i'r Bigwn ym mis Ionawr 1989.

Golygyddol

Bellach y mae blwyddyn newydd arall yn ymagor o'n blaen. Y mae tref Dinbych hithau ar ei newydd wedd i'w chroesawu. Fe adnewyddwyd Neuadd y Dref a'i haddurno. Gyda hyn bydd hen Neuadd y Sir yn gartref newydd y Llyfrgell a'r Amgueddfa. Daw'r hen lyfrgell, fe obeithiwn, yn gartrefi newydd i Ganolfan Iaith Clwyd. Ym myd busnes mae pyrth arch-farchnad newydd 'Gateway' ar fin agor i'n croesawu a Kwiksave hithau wedi ymdrwsio ag addasu i wynebu'r her fasnachol. Yn nhop ucha'r dre mae tai Mc Bryde yn prysur lenwi (er mai prin iawn yw'r Cymru Cymraeg sydd yno). Mae meddygfa newydd Dr Thomas a'i bartneriaid bron wedi ei chwblhau, a'r newydd gorau yw y bydd fflatiau newydd Cymdeithas Tai Clwyd ar gyfer yr henoed yn barod erbyn y Gwanwyn. Mae gennym ddigon o le i ymfalchio ag ymhyfrydu yn nhref Dinbych – ei hinsawdd, ei hadeiladau ag yn enwedig ei phobl.

Cywydd ABERTH –
J Glyn Jones

Er yn rhan o warineb
Nid yn hawdd y daw i neb.
Y ddawn roed i ddwyn yr iau
Daw o gariad, nid geiriau.

Un gwar yw y gwr a all
Roi ei orau i arall.
Rhoid ei ddawn o'i wirfodd heb
Ildio i'w hunanoldeb.

Englyn Parodi –
J Glyn Jones

Y Lager sy'n cyrraedd y rhannau na
all yr un
cwrw arall ei gyrraedd.

Rhwydd gymar hawdd ei gymell – i'r
'mennydd
A'r mannau anghysbell
Hel o'r dirgel lond oergell
O ganiau hwn a'n gwna'n well.

Colofn y Fran Wen
Tomos Edwards
1989
Blwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr oddi wrth y misus a mi. Sut flwyddyn fydd hi, sgwni? Giami os bydd hi rwbeth tebyg i 1969 a 1979. Da chi'n cofio? Gorfod derbyn Sais yn dywysog arno ni yn '69 a fotio dros aros yn sownd wrth Loegr yn '79. All '89 ddim bod lot gwaeth os bosib?

Cestyll
Sylwi bod anferth o arwydd brown ar yr A55 yn dangos i bawb lle mae Castell Bolelwyddan, yr erthyl a ddyfeiswyd gan Gyngor Clwyd. Dim byd o gwbl i ddangos y ffordd i gastell go iawn fyny'r ffordd – Castell Dinbych. Dydi'r miloedd sy'n teithio ar hyd y briffordd hon ddim callach fod Dinbych yn bod. Hwyrach fod gennym le i ddiolch am hynny.

Colofn Pigwr
1989
Fydd dim angen i neb son am yr Esgob Williams Morgan yn 1989. 1988 oedd ei flwyddyn o. Bob blwyddyn arall mae'r William Morgan y mae ei ddefaid yn niwsans, yn cael mwy o sylw. Tybed ydi'r ddau yn perthyn?

Addunedau
Dwi ddim am drafferthu gwneud addunedau ar ddechrau'r flwyddyn. Wnes i ddim ddechrau'r flwyddyn o'i blaen hi, nag o flaen honno. Fedra i ddim diodde methu, felly mae'n well gen i beidio trio. Os na thriwch chi wneud dim byd, welith neb fai arnoch chi. Diolch fod yna bobl yn dal i drio hefyd. Mi fase bywyd yn ddiflas iawn tase na neb i mi fedru gweld bai arnyn nhw.

Pennill Mawl i Sgip Sbwriel
Canwn dy glodydd, i'r seithfed ne'
Am iti gymeryd holl sbwriel y dre
Cyn gweld ohonom dy ogoniant di,
Roedd llanast diawledig o gwmpas ty
ni
Ond bellach caf gludo pob peth yn
ddi-lol,
A'i wagu'n ddi-ffwdan i ogof dy fol
Diolchaf fod lle i bobl neis ein byd
Gael rhoddi o'r golwg holl garthion y
stryd.

Gofynnodd John Les i grwp o ddysgwyr yn ddiweddar roi'r ymadrodd 'po fwyaf'' mewn brawddegau. Cafodd ateb gan un “Prynodd Mam y po fwyaf yn y





Y BIGWN

CYF.1 RHIF 9 IONAWR 1989 Papur Bro Dinbych PRIS 20c

CYFARCHION BLWYDDYN NEWYDD

NYNI YDYW TRIAWD Y BIGWN

Iolo, Sali a Lois ydi'n henwau ni, a fel gwelwch chi yn y llun mi gawsom ni'n bedyddio efo'n gilydd yn y Capel Mawr y bore Sul cyn y Dolig. Mae Iolo ar y chwith, Sali yn y canol a Lois ar y dde. Welodd neb ffasiwn fedyddio yno o'r blaen, ond mi gofiodd Mr Pritchard ein henwau yn iawn, chwarae teg iddo. Fel basach chi'n disgwyl, ym mreichiau ein mamau oedden ni, sef Angharad a Carys a Marian. Y tri gŵr doeth sy'n edrych braidd yn sobor y tu ôl ydi'n tadau ni: Aled, Nic a Geraint. Mi fasa ninna yn lecio dymuno blwyddyn newydd dda i bawb sy'n darllen y Bigwn, gan obeithio bydd y papur ar gael pan fyddan ni'n tri yn medru ei ddarllen o.

NEGES Y RHEITHOR A'R MAER

Fel Maer tref Dinbych, rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl darllenwyr y Bigwn. Mae'r papur yn nesu'n gyflym at ei ben-blwydd cyntaf a thybiaf mai dyma'r amser addas i longyfarch y bobl hynny sydd wedi bod ynglŷn ag ef o'r cychwyn cyntaf. Ar eich rhan chwi, carwn ddiolch iddynt am eu hymdrech i gynhyrchu papur bro teilwng i Gymry tref Dinbych.

Fel pob papur bro yng Nghymru, mae'r Bigwn yn rym sy'n cydio ac yn asio'r gymdeithas Gymraeg ynghyd; a'i ddyfodol o'i herwydd yn un â pharhad yr iaith Gymraeg. Tref Gymreig ei hanian yw Dinbych o hyd, ag ynddi gymdeithas gref o Gymry da. Gan fod yr iaith Gymraeg yn prysur ddirywio mewn rhannau eraill o Ddyffryn Clwyd, bydd gan y dref hon gyfraniad pwysig i'w wneud yn y dadeni sy'n rhwym o ddigwydd yn hanes yr iaith. Yma fe fydd troi hanes wyneb i waered, gan fod trefi megis Dinbych wedi codi yn y lle cyntaf i drosglwyddo diwylliant estron.

Nid ar ddamwain, felly, y dewiswyd ein tref ni yn gartref tebygol i Ganolfan Iaith Clwyd. Mae'r cais yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor Sir yn fuan. Pan wireddir y freuddwyd, rhagwelaf y bydd yn cael effaith ddramatig ar Gymreictod y dref. Bydd Cymry di-Gymraeg yn dymuno rhan yn y dadeni hwn, a'n lle ni fydd annog y newydd-ddyfodiaid i uniaethu eu hunain â'n diwylliant ni. Yn hyn bydd gan y Bigwn ran allweddol a blaenllaw, nid yn unig i ymgyrchu dros gael Canolfan ond hefyd i wasanaethu anghenion cymdeithas Gymraeg fydd yn prifio fwyfwy o hyn i ddiwedd y ganrif. Gadewch inni, felly, edrych ymlaen at 1989 fel y flwyddyn y bydd y Bigwn yn mynd rhagddo o nerth i nerth, y flwyddyn y bydd Cyngor Sir Clwyd yn cefnogi'r ymgyrch i sefydlu Canolfan Iaith yn yr hen lyfrgell, a'r flwyddyn y gwelir ynddi ffyniant tymhorol i holl drigolion tref Dinbych.

*David E Jones.*

'Rwy'n falch iawn o gael y cyfle hwn i gyflwyno fy nghyfarchion cynhesaf a'm dymuniadau gorau i chwi i gyd ar ddechrau blwyddyn newydd. Mae ymadrodd poblogaidd sy'n dweud mai 'yfory yw dechreuad eich bywyd newydd'. Mae hynny, wrth gwrs, yn wir bob amser; mae **pob** yfory yn ddechrau newydd. Ond y mae blwyddyn newydd yn ddechrau newydd mewn modd arbennig ac unigryw. 'Ni ddaw i neb ddoe yn ôl,' ac ni wyddom beth sy'n ein haros ym mhlygion tywyll y dyfodol. Byddai pawb yn cydnabod mai hynny sydd orau inni hefyd. Y mae her a sialens y Flwyddyn Newydd o'n blaenau oll beth bynnag a ddaw, 'ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog'.

Y mae pob cymuned a phob unigolyn yn edrych ymlaen ar ddechrau blwyddyn at weld byd heb ynddo na thrais na gormes, byd lle mae rhyddid a chyfiawnder yn teyrnasu. Boed felly ym 1989. Mae gan y Gymdeithas Gristnogol, os yw'n ffyddlon i'w Harglwydd, Efengyl i'w chyhoeddi; sef newyddion da am dangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da ymhlith dynion. Boed i ni, y teulu Cristnogol yma yn Ninbych, gael golwg newydd ar ein galwedigaeth, gan weithio mwy gyda'n gilydd er gogoniant Duw.

Beth, felly, y gallwn ni ei ddwyn gyda ni i'r flwyddyn newydd? Yn gyntaf, yr argyhoeddiad fod Duw gyda ni a bod popeth yn Ei ddwylo - er na welwn ni ond cam. Yn ail, y ffydd yn ffyddlondeb Duw sydd wedi ein cynnal hyd yn hyn a'n galluogi i wenu ar y stormydd oll. Yn drydydd, y parodrwydd i weithredu'r ffydd honno ac i wneuthur ein dyletswydd Cristionogol, gan garu Duw a'n cymydog fel ni ein hunain.

Boed i Dduw ein bendithio yn helaeth yn y flwyddyn newydd. Boed iddo ein nerthu i fyw bob dydd er Ei glod ac mewn gwasanaeth yn ein tref a'n bro. Dymunaf iechyd i chwi a llwyddiant ym mhob peth.

*Robert J Williams.*

# Y Tywydd

Onid difyr yw son am y Tywydd? Mae yn bwnc sy'n torri 'r garw mewn ambell sgwrs gan ddilyn ymlaen at bethau eraill ymhen munud neu ddwy. Ond er mor bwysig ein sylwadau, y mae olion y tywydd yn drwm arnom. Meddyliwch am y gwahaniaeth, er engraifft rhwng hwyl pawb ar fore dydd Llun oer, gwlyb, - a phnawn dydd Gwener braf, heulog gyda'r Sadwrn a Sul o'n blaenau. Mae'r gwahaniaeth i'w weld ar osgo pawb a'u hwynebau hefyd, fel arfer.

O na bai'n bosib i ni fod yn bresennol mewn dau le ar yr un pryd i gael gwybod sut beth yw profi tywydd braf mewn un man ag efallai dywydd gwael ofnadwy mewn man arall sydd ond ryw ychydig filltiroedd i ffwrdd. Mae'n anodd ei amgyffred ond dyna'r llun o roir o'n blaen weithiau gan y bobl ddylanwadol hynny sy'n darogan ein tywydd.

Iawn, efallai, meddech – ond gawn ni anghofio am yr ardal dywydd drwg, a mynd am y tywydd da, ag y mae, wrth gwrs ddigon o lefydd yn y byd hwn sy'n cael tywydd da cyson – yr Aifft, er enghraifft. Bron dim glaw, a gwres cyson er bod hwnnw yn annioddefol yn ystod misoedd ein haf ni.

Neu, os am dywydd da gallwch ddewis gwlad gyda gwres ond hefyd wlaw, a hwnnw weithiau'n drwm, sy'n gwneud bywyd yn drymaidd ag anodd.

I gadw'r ddesgl yn wastad, ystyriwch y gwledydd oer, oer iawn er yn weddol sych efellai, neu'r gwledydd sy'n gorfod dioddef tywyllwch parhaol am gyfnod o'r flwyddyn a wedi hynny olau dydd cyson am bedair awr ar hugain.

Mae tywydd y gwledydd poeth, oer, sych, gwlyb hyn yn rheoli bywyd y trigolion i raddau helaeth, -a'u natur fel tasai yn adlewyrchu'r tywydd. Gwelwn natur eithafol wyllt yn dod i'r amlwg yn y gwledydd poeth, lle na cheir yr un duedd mewn gwledydd oerach.

Siarad yn gyffredinol iawn yw hyn wrth gwrs ond tebyg yw ei fod yn fras gywir, gan ein gadael ni yn y wlad hon yn derbyn ychydig o bob tywydd, neu fel y mae'n tueddu fwy fwy erbyn hyn, lawer o bob math o dywydd a hyn yn adlewyrchu ein natur gymhedrol, tybed!

Ceredig Gwynn


**CLINIG LLES & HARDDWCH**

salon Visage Dinbych

*'Croeso Mawr I Gwsmeriaid Hen & Newydd*
*Hefo Julie, Holly & Siwan*

**Shellac - Trin Y Dwylo A'r Traed – Wacsio – Threading**
**Trin Yr Wyneb – Coluro Yn Cynnwys Gwersi – Aeliau – Amrannau**
**Tan Ffug – Sgwrio – Amlapio**
**Nosweithiau Mwytho Hefo Prosecco!! (4-8 o westai)**

*Mae triniaethau lles arbennig & pecynnau ymlacio ar gael hefo Julie ac yn cynnwys:*
**Hypnotherapi, Adweitheg, Tylino Therapiwtig, Reiki, Technegau anadlu ac ymlacio, tylino is-goch & uwchsain, (CBT & cwnsela ar ei fordd)**
(Arbennig ar gyfer iselder, straen, pryder, materion pwysau, menopos, anhunedd, hunan hyder a llawer mwy)

Ffoniwch 01745812215
(plis gadewch neges os angen; peidiwch a bod yn swil)
Tectiwch Julie Ei Hun Ar 07825314302


Cyfarfod Blynyddol Y Bigwn
Nos Fercher 6ed o Fawrth
Festri capel Mawr
7.00y.h.
Croeso Cynnes i Bawb
Dewch yn Llu


Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk



**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur

01745 812482

# Llysenwau Llefydd

Tua phymtheng mlynedd yn ôl sgrifennais erthygl ar lysenwau Dinbych. Mae nifer o'r rhain yn lliwgar ac yn ddyfeisgar iawn. Dyma ddetholiad o'r goreuon ohonynt – Huw stwffiwr, Elin mangle, Wil Tarmac, Ifan y Torrwr, Harri Rôt a Dei Lludw. Pwy gae chi yn dalach na Double Decker, yn deneuach na Razor Blade, yn fwy na Siarabang Lis, yn dlotach na Seimon Rags, yn gyfoethocach na Lord Dunlop neu yn arafach ei gerddediad na Twm Falwen?

Fel Dinbychwyr yr oeddem yn adnabyddus i'n cyd Gymry fel Cŵn Dinbych, neu i fod yn gwbl gywir fel Cŵn Duon Dinbych, yn tanlinellu'r cysylltiad gyda'r helgi du sydd ar arfbais ein tref.

Tybed beth oedd tarddiad llysenw ein cymdogion i lawr y dyffryn – Cathod Rhuthun?

Y dydd o'r blaen, tra'n bodio tudaleannau'r Cymru coch am y flwyddyn 1909, (mae rhediad di-dor o'r cyfrolau gennyf yma yn y stydi), tarewais ar nodyn gan y Golygydd ar y pryd, sef O.M. Edwards, yn cyfeirio at y testun o lysenwau llefydd yng Nghymru. Digwydd bod, yr oedd un W. Davies, Tal y Bont, Ceredigion, wedi anfon casgliad o enwau iddo, ac o blith y rhain yr wyf wedi dethol nifer sydd yn ddiddorol. Mae tarddiad nifer ohonynt yn amlycach na'u gilydd, rhai yn gyflythrennol, ambell un yn gynghaneddol ac eraill yn adlewyrchu natur gwaith yr ardal, traddodiad neu chwedl leol. Rhaid cyfaddef mae nifer yn goeglyd ac yn ddychanol ond y mae llawer air annelwig â'r ystyr braidd yn annelwig. Dyma, yn nhrefn yr wyddor ddetholiad ohonynt – Adar Morgannwg, Angylion Ceinewydd, Bodfari Lads, Boneddigion Gwynedd, Bradwyr Aberedw, Brain Henllan (hefyd Brain Harlech), Brithoniaid Brycheiniog, Brocs Hirwaen, Cacwn Llanfyllin (hefyd Ceirw Llanfyllin), Cewcs 'Berdar, Cogau Dolwyddelan, Gogfrain Crughywel, Cryddion Llanerchymedd, Cyrn Myherin Llansannan, Dowcars Dolgellau, Ebolion Cyffylliog, Ffyliaid y Bala, Gwaedgwn Gwent, Gwartheg Llanarth, Gweryrod Llanuwchllyn, Gwybed Mawddwy, Gwŷr Cynfelyn, Hwyaid Niwbwrch, Lloeau Lleyn, Llygod Llangadog, Milgwn Cydweli, Moch Môn, Plant y Garsiwn (Machynlleth), Pysgod Duon Aberdyfi, Tlodion Llanwddyn.




Does dim llawer o'r enwau hyn yn cael eu defnyddio erbyn heddiw, ond rhaid cofio yn achos Caneris Caernarfon, dyna yw enw tim pêl-droed y dref, ac y maent hefyd yn gwisgo crysau melyn.

Berwyn, John a Stan – serch fy mod wedi chwilio'n fanwl am Penrhyndeudraeth (wn i ddim sut y daeth y 'd i Pendryn), Nefyn a Llanberis, bu rhaid i mi fodloni ar gyfansoddi'r canlynol – Pendefigion Pendryn, Nefolion Nefyn a Llanciau Llanberis.

Ychydig yn nes adref beth am – Penbyliaid Peniel, Tanforwyr Tanyfron, Llyncwyr Llanrhaeadr, Trefnyddion Trefnant, Carcharorion Cerrig, Prentisiaid Prion a Malwod Moel Famau?

*R M (Bobi) Owen*

---

## Cyfle i rannu eich syniadau ar sut i wneud Cymru’r lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Heléna Herklots CBE, eisiau clywed gan bobl hŷn ledled Cymru ynghylch sut i wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.

Defnyddir y safbwyntiau a'r syniadau y bydd pobl hŷn yn eu rhannu i gynorthwyo’r gwaith o ddatblygu rhaglen waith y Comisiynydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill.

Bydd y rhaglen waith yn cyflawni tair blaenoriaeth hirdymor allweddol i Gymru - gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu heneiddio’n dda, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu, a rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn - blaenoriaethau y mae'r Comisiynydd wedi eu nodi yn dilyn ymgysylltiad helaeth â phobl hŷn a rhanddeiliaid ers iddi ddechrau yn ei swydd ym mis Awst y llynedd.

Dywedodd Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

“Mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn mwynhau ansawdd bywyd da ac rwyf wedi ymweld â llawer o brosiectau a gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

“Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pob unigolyn hŷn yn gwybod beth yw eu hawliau a bod eu hawliau'n cael eu cadarnhau, eu bod yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth yn ei holl ffurfiau, yn cael eu cefnogi i heneiddio’n dda, a bod yr oedraniaeth a'r gwahaniaethu sy'n sail i lawer o'r materion maent yn eu hwynebu yn dod i ben.

“Gan hynny, bydd fy ngwaith fel Comisiynydd dros y tair blynedd nesaf yn cael ei gyflawni gan ystyried y blaenoriaethau allweddol hyn, ac rwyf eisiau i leisiau, profiadau a syniadau pobl hŷn, a'r rhai sy'n gweithio a gwirfoddoli gyda phobl hŷn, lywio fy ngwaith.”

Mae’r Comisiynydd yn arbennig o awyddus i ganolbwyntio ar waith a fydd yn gwella ansawdd bywyd y bobl hŷn mwyaf agored i niwed, y rhai y mae eu lleisiau’n cael eu hanwybyddu’n aml a’r rhai sydd mewn perygl o niwed, a byddant hefyd yn defnyddio ei gwaith i dynnu sylw at y cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud at eu cymunedau a’r gymdeithas.

Ychwanegodd y Comisiynydd: “Mae gan bobl hŷn lawer iawn o wybodaeth a phrofiad, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed ganddynt, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu cyfer, am y newidiadau sydd eu hangen a sut gellir cyflawni’r rhain i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.”

Gallwch ymateb i ymgynghoriad y Comisiynydd drwy fynd i wefan y Comisiynydd, neu ffonio 03442 640 670 i gael copi caled. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 22 Chwefror 2019.

Ar gyfer yr holl ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â Richard Jones ar 029 2044 5040 / 07515 288271 neu anfonwch e-bost at richard.jones@olderpeoplewales.com

# Pum Cenedlaeth o Gigyddion

Does dim llawer iawn o amser er dyddiau Glynne Davies y bydd llawer yn ei gofio ynghyd a'i frawd Thomas Owen Davies yn siop cigydd 9, Lon Sowter (Bridge Street). Y ddau yma oedd yr olaf o'r pum cenhedlaeth o gigyddion Davies yn y dref hon. Cafodd hanes cyflawn y teulu ei grynhoi gan Dorothy Kirk o Fron y Graig. Y mae hi yn wyres i Robert Pierce Davies a oedd yn un o'r bedwaredd genhedlaeth. Ond gwell son yn fras am yr hanes o'r cychwyn.

Marc Davies 1773 – 1829 o Lansannan oedd y cyntaf o'r cigyddion, a daeth i'r dref yma tua 1809. Yr ail genhedlaeth oedd Robert Davies 1806 – 1884 a ddaeth yn denant ar Fwa Fflat yn Ffynnon Barcer. Yn ogystal a thrin y tir cyfagos fe gychwynodd gynnal stondin gwerthu cig yn y Neuadd Farchnad.

Daw dau gigydd i'r amlwg yn y drydedd genhedlaeth. Roedd gan Marc Davies, y mab cyntaf anwyd i'r Robert uchod, siop yn Llanelwy a wedi hynny yn Vale Road, Y Rhyl. Cychwynodd Thomas Davies, yr ail fab, gyda stondin yn y Farchnad ag wedyn fe agorodd siop yn 2, Stryd y Dyffryn, ym mhen ucha'r stryd. Prynodd Fwa Fflat yn 1874 a'r flwyddyn wedyn adeiladodd Fryn Hyfryd ar Allt y Bigwn cyn genedigaeth ei blentyn cyntaf – Robert Pierce Davies. Roedd bwriad ganddo i adeiladu saith Villa ar Riw'r Bigwn, ond un par yn unig a godwyd, sef Fairfield a Bryn Amel.

Bu Thomas Davies farw'n sydyn yn 1895 a wedi hynny daeth y bedwaredd genhedlaeth yn gyfrifol – ei ail fab, Thomas William, ynghyd a'r pedwerydd mab, David, yn gofalu am siop 2 Stryd y Dyffryn, y trydydd mab, John, yn cychwyn ei fusnes ei hun ar welod Stryd y Dyffryn, rhif 120, a'i fab cyntaf, Robert Pierce yn prynu siop rhif 9, Lon Sowter yn nes ymlaen.

O blith yr wyth plentyn a gafodd Thomas Davies, y drydedd genhedlaeth, sef pedwar bachgen a phedair merch, y cyntaf, Robert Pierce Davies oedd taid Dorothy Kirk ag un o'r merched sef Margaret Jane, oedd fy Nain innau. Fel y cofiaf fy Nain yn glir fel gofia Dorothy ei thaid yn dda. Ganed ef ym Mwa Fflat ond prynodd Tanyard Cottage, ei helaethu a'i alw yn Bron y Graig – cartref Dorothy ymhen amser. Prynodd siop rhif 9, Lon Sowter yn 1912 er mwyn gwerthu cig. Ymddeolodd yn 1934 ag ar ol marwolaeth ei wraig yn 1939, ail briododd yn 1946 ag yntau'n 81 oed ond daeth yn ol i Fron y Graig yn 1955 a chael gofal dwy o'i ferched – Cordelia ag Edith. Bu farw'r flwyddyn wedyn ag yntau yn 91 oed.

Un o'r bedwaredd genhedlaeth oedd Thomas William (ail fab Thomas Davies o'r drydedd genhedlaeth) a ddaeth i ofalu am y siop ar 2, Stryd y Dyffryn gyda'i frawd David. Cafodd Thomas William bedwar o blant a phob un wedi cilio yn go bell o fyd gwerthu cig – yn eu plith roedd Gwilym Davies y deintydd, Idris Davies, Clerc y Cyngor Sir yn Sir Fon, ag Elwyn Davies, rheolwr banc.

Roedd David, hefyd o'r bedwaredd genhedlaeth, yn trin cig gyda'i frawd Thomas William yn rhif 2, Stryd y Dyffryn, ond cafodd amser hefyd i adeiladu ty – Awelfryn, yn agos at weddill tai'r teulu.

Dyma ddod at y genhedlaeth olaf, sef Glynne Davies. Ef oedd trydydd mab Robert Pierce a fe gymerodd siop ei Dad yn Stryd y Bont pan oedd hwnnw'n ymddeol yn 1934. Daeth brawd Glynne – Thomas Owen ato i'w gynorthwyo ar ol bod yn gweithio gyda'i ewyrth yn 2 Stryd y Dyffryn am gyfnod.

Ar ol y ddau yma dyna ddiwedd ar yr olyniaeth ag yn wir ar gyfnod. Merched oedd plant Glynne a hefyd Thomas Owen a felly nid oedd parhad â'r traddodiad yn debygol, er efallai mai gwahanol fyddai'r duedd y dyddiau hyn.

*Ceredig Gwynn*



Llun o Thomas Davies, y drydedd genhedlaeth, a'i deulu.
Gwelir taid Dorothy Kirk yn sefyll ynghanol y rhes gefn a Nain Ceredig Gwynn nesaf ato ar y dde

TE YN Y GRUG

Tþ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk


01745 816576

## Atebion IONAWR 2019

**Ar Draws :**
1. Afradlondeb
9. Mawrogion
10. Waldo
11. Sylfaen
12. Deiniol
13. Didwyll
15. Cardotyn
18. Yr Ysgwrn
19. Talent
22. Encilio
24. Arsenal
26. Ymladd
27. Silwriaid
28. Dargludiant

**I Lawr :**
1. Anweladwy
2. Rioja
3. Daioni
4. Ôl nodiad
5. Diweithdra
6. Bolgi
7. Ymosod
8. Coblyn
14. Ymgeleddwr
16. Trefniant
17. Arloesol
18. Ymenyn
20. Teledu
21. Tabled
23. Caled
25. Syria

# CROESAIR CHWEFROR 2019




**Ar Draws :**
1. Hwn sy’n gwneud cwrw a gwin yn feddwol
5. Adeilad ar gyfer addysgu
9. Yn ddiweddarach
10. Egwyddorion ymddygiad
11. Un sy’n holi
12. Cadair
14. Swydd Osian Roberts (2,6)
16. E.e. John Wayne?
19. Un o’r planedau
20. Math arbennig o gromlin
21. Yn bresennol
23. Heb wreiddioldeb
27. Teitl i adran ee mewn cylchgrawn
28. Dyfais i dderbyn tonnau ee radio
29. Cosb
30. Safle mewn tîm

**I Lawr :**
1. Un a edmygir
2. Gorau chwarae, ..... (3,6)
3. Pwnc ysgol
4. Un sy’n cyfansoddi penillion
5. Madruddyn . .... ,
rhan bwysig o’r system nerfol (1,4)
6. Cydnabyddiaeth er côf am berson (5,4)
7. Maint llechi to
8. Pentref ger Pentrefoelas (6,4)
13. Cryndod
15. Cerddor, ond nid un sy’n canu
17. Trigolion
18. Trylwyredd
22. Cynilo (arian)
24. Mae rhain ar waelod eich coesau!
25. Un o lyfrau’r Hen Destament
26. Eglur

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy’r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a’i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF National Independent Funeral Directors

# CLWB RYGBI DINBYCH

Gyda Phencampwriaeth Ail Adran Gogledd Cymru eisoes wedi ei sicrhau, rhaid oedd teithio i lawr i Meifod i chwarae yn erbyn COBRA, yr unig dîm i guro Dinbych yn y Gynghrair. Gêm oedd hon wedi ei gohirio ychydig wythnosau ynghynt oherwydd cyflwr gwlyb y cae yn dilyn cyfnod hir o law. Gwahanol iawn oedd y tywydd erbyn hyn, gyda haul crasboeth yn tywynnu ar Fwynder Maldwyn. Unwaith yn rhagor, COBRA gariodd y dydd, o 35-17. Er mor ddi-brofiad oedd tîm Dinbych ar y diwrnod, roedd y tîm cartref yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth, ac maent yn sicr ymysg y ffefrynnau i ennill dyrchafiad o'r Ail Adran y tymor nesaf.

Fe gynhaliwyd Cinio Blynyddol a Noson Wobrwyo y Clwb yng Ngwesty'r Oriel ddiwedd mis Mai. Y prif westai oedd Mr Lee Byrne, cyn chwaraewr gyda'r Sgarlets, Y Gweilch, Cymru a'r Llewod, yn ogystal â thri tymor yn Ffrainc gyda Clermont Auvergne cyn dod yn ôl i Gymru i gynrychioli'r Dreigiau am gyfnod byr. Cawsom gyfle i glywed nifer o sylwadau diddorol ganddo yn ystod y sesiwn holi ac ateb dan ofal Bernard Thomas.

Cyflwynodd Lee y gwobrwyon am y tymor 2017-2018 fel a ganlyn:

<u>Tîm Cyntaf</u>

Chwaraewr y Flwyddyn: Tom Seddon

Chwaraewr y Chwaraewyr: Tom Seddon

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Dan Lawrence

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Joe Davies

<u>Ail Dîm</u>

Chwaraewr y Flwyddyn: Iwan Johnson

Chwaraewr y Chwaraewyr: James Rowse

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Ryan Pinfold

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Ben Reed

<u>Ieuenctid</u>

Chwaraewr y Flwyddyn (Tlws Coffa Peter Jones): Jac Jones

Chwaraewr y Chwaraewyr: Robin Williams

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar (Tlws Coffa Richard Jones): Tom Jones

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Callum Taylor

Gwobr y Capten: Robin Williams

<u>Cefnogwr y Flwyddyn</u>

Denise Harris

<u>Gwasanaeth Oes i'r Clwb</u>

Russell Rowlands

<u>Aelod y Flwyddyn</u>

Graeme Decke

<u>Gwobr Arbennig</u>

David Haydock

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr a'r rhai a enwebwyd. Unwaith eto roedd y Clwb yn ddyledus i Nick Wynne am drefnu noson wych arall. Mae ei waith caled yn sicrhau fod gennym y siaradwr gwadd, bwyd a lleoliad gorau ar gyfer digwyddiad mor bwysig yn nyddiadur y Clwb. Hoffai'r Clwb ddiolch i reolwyr a staff yr Oriel, Llanelwy am bryd o fwyd rhagorol a noson gofiadwy.

Erbyn hyn mae hen edrych ymlaen at y cinio arbennig i ddathlu penblwydd y Clwb yn ddeugain oed, i'w gynnal ar nos Sadwrn Gorffennaf 7fed, sef dyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Bigwn. Y gŵr gwadd ydy'r dyfarnwr byd-enwog Nigel Owens, ac mae'n argoeli i fodd yn achlysur arbennig. Y gobaith hefyd ar y noson yw lansio llyfr dwyieithog yn dilyn hynt a helynt deugain mlynedd cyntaf y Clwb, yn dwyn y teitl "Clwb Rygbi Dinbych, Calon Ein Cymuned. 40 Mlynedd o Rygbi". Bydd copïau ar gael am £10.

Unwaith i'r tymor ddod i ben cafwyd Diwrnod Gwobrwyo yr Adran Mini Iau, a braf oedd cael cwmni Capten y Clwb, Narmer El-Lami, i gyflwyno'r gwobrau. Lluniau dudalen gefn


PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf

Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau

Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion

Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332


e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR

DINBYCH

01745 813431



Llyfrau, Cardiau

Casetiau

Crynoddisgiau

a Chrefftau

Plaid Cymru | Party of Wales

Llyr Gruffydd AC



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC

Canolfan Fusnes Birch House

Hen Lôn Parcwr

Rhuthun

LL15 1HN

01824 703593

Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

Yn gweithio dros y gogledd

@LlyrGruffydd

www.llyrgruffydd.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Clwb Pel-droed Dinbych

Ar Ddydd San Steffan, daeth y dorf fwyaf erioed i Central Park gyda 680 o bobl yn ymgynnull i gefnogi'r gêm elyniaethol rhwng Dinbych a Rhuthun ar brynhawn cynnes a sych. 3-0 oedd y sgôr i Ddinbych gyda Lewys Sirrell yn cael gêm arbennig wrth iddo sgorio'r tair. Cafwyd gêm arbennig a'r unig anffawd oedd cerdyn coch i Curtis Langton yn hwyr yn y gêm.

Ers hynny, mae Dinbych wedi chwarae oddi cartref wrth iddynt deithio i'r Fflint, sef y tîm yn yr ail safle. Gêm gyfartal oedd hi o 1-1, diolch i gôl gan Mark Roberts, er aeth Dinbych i lawr i ddeg dyn wedi i Scott McHarrie gael ei hel oddi ar y cae gyda cherdyn coch yn ystod yr hanner awr olaf. Gresford oedd y gêm nesaf oddi cartref, ble gwelwyd Dinbych unwaith eto yn gorfod chwarae gyda deg chwaraewr gyda Tony Davies yn derbyn cerdyn coch y tro hwn a disgyblaeth yn parhau i fod yn broblem i'r tîm. Er i Ddinbych ymdrechu'n galed, colli o 2-0 oedd eu hanes y diwrnod hwnnw. Trip i Fangor oedd nesaf, ond o ganlyniad i'r cardiau coch, roedd y tri uchod wedi eu gwahardd yn ogystal â Mark Roberts am dderbyn gormod o gardiau melyn. Rhoddodd hyn gyfle i dri o chwaraewyr yr ail dîm gael blas ar chwarae i'r tîm cyntaf, gyda Jacob Parry yn dechrau'r gêm a Billy Holmes a Paul Williams ar y fainc. Er i'r tîm golli o 5-0, chwaraeon nhw'n arbennig gydag ambell gyfle gwych i sgorio. 1-0 oedd hi erbyn hanner amser ond fe lithrodd Dinbych i adael tair gôl i mewn o fewn 5 munud a laddodd y frwydr iddynt.

Gêm gartref oedd i ddilyn ond yn anffodus, colli oedd eu hanes yn erbyn Conwy Borough, tîm sydd hefyd yn brwydro yn hanner gwaelod y gynghrair, o 3-1 gyda Jake Walker yn sgorio'r unig gôl i Ddinbych.

Mae'r tîm bellach yn agos at waelod y tabl a bydd angen rhediad da o fuddugoliaethau er mwyn codi eu safle.


Yn y cyfamser, stori wahanol yw hi i'r Ail Dîm wrth iddynt frwydro i fod ar frig Cynghrair Lockstock Cymru. Ar hyn o bryd, maen nhw yn yr ail safle tu ôl i Borthmadog sydd chwe phwynt ar y blaen iddynt. Cafwyd buddugoliaeth gyfforddus yn erbyn Llandyrnog o 3-0 gyda goliau gan Billy Holmes (2) a Sean James. Dilynwyd hyn gyda buddugoliaeth arall o 4-0 yn erbyn Pwllheli gyda Sam Tate, Liam Roberts, Billy Holmes ac Ashley Andrews yn sgorio gôl yr un. Yna cafwyd gêm anodd yn erbyn Llanrug, gydag ambell chwaraewr yn chwarae i'r tîm cyntaf, ond ennill a wnaethon nhw o 3-2 gydag Andy Thomas yn sgorio dwy a Rhys Cooper yn sgorio un.

Colli a wnaeth tîm Denbigh Development mewn gêm gwpan yn erbyn Llanelwy o 3-2, yna colled arall o 4-0 yn y gynghrair yn erbyn y Glannau ac maent yn parhau felly ar waelod y gynghrair.

Oddi ar y cae, daeth y cyhoeddiad pwysig fod Gareth (Perry) Thomas wedi'i benodi'n Rheolwr Masnachol y clwb. Thomas oedd rheolwr y clwb pan gyrhaeddon nhw gêm derfynol Cwpan Word yn 2016, ac yn ddiweddar mae o wedi gadael ei swydd reolaethol yng Nghonwy Borough.

Lluniau →






Dinbych yn dathlu wedi'r fuddugoliaeth yn erbyn Rhuthun.



Cefnogwyr yn y stand newydd.



Y dorf ar Ddiwrnod San Steffan yn y gêm rhwng Dinbych a Rhuthun o flaen y Tŷ Clwb newydd.



gwasg.com PRINT

ARGRAFFU

DYLUNIO GRAFFEG

PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES

LLYFRYNNAU › POSTERI

TAFLENNI › PAMFFLEDI

BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU

ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL

ARGRAFFU FFORMAT BRAS

ARGRAFFU CYNLLUNIAU

LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP

01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com

GwasgPrint



Diwrnod Gwobrwyo’r Minis




Janet a Jeff Jenkins




Phyllis a Terry Bryer




Holi ac Ateb



Russ Rowlands a Lee Byrne



David Haydock a Nick Wynne

***GOLYGYDD Mawrth:***
***Erfyl Williams***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn  Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain